Fy stori

Cefais fy magu mewn teulu cariadus a chefnogol – gyda fy rhieni a dau frawd, ynghyd â theulu estynedig a ffrindiau. Cafodd fy mrodyr ill dau ddiagnosis o Ddyslecsia a chawson nhw eu haddysgu mewn dosbarthiadau bach lle'r roedden nhw'n gwneud y pynciau sylfaen – Mathemateg, Cymraeg a Saesneg ac nid oedden nhw wedi cael y cyfle i sefyll unrhyw arholiadau. Doeddwn i ddim yn ddisgybl A* ond rwy'n cofio teimlo'n euog pan fyddai fy rhieni'n canmol fy llwyddiannau yn yr ysgol.

Yna, pan ddeuthum yn fam i blentyn a oedd wedi cael diagnosis o Ddyslecsia, Dyspracsia a diffyg canolbwyntio, roeddwn i'n gorfod "ymladd" yn gyson i sicrhau bod fy mab yn cael yr un cyfleoedd â phlant eraill – byddai fy ffrind yn arfer cellwair fy mod i fel rhyw ddaeargi bach penderfynol wrth i mi geisio cael yr hyn oedd ei angen ar fy mab. I gychwyn, cafwyd 10 awr o gefnogaeth, ond yna fe newidiodd yr Adran Addysg y ffordd yr oedd y gefnogaeth yn cael ei darparu a daeth yn gyfrifoldeb ar yr ysgol i benderfynu sut y byddai'r cyllid yn cael ei ddyrannu, a daeth cefnogaeth unigol fy mab i ben. Ond roedd yn ffodus mewn ffordd arall, oherwydd bod plentyn arall a oedd angen gofal 1-1 llawn amser oherwydd ei anghenion corfforol, ac felly roedd hi'n cefnogi fy mab hefyd. Roedd hi'n symud i fyny'r ysgol gyda nhw a hi oedd yr unig unigolyn "cyson" oedd ganddo.

Pan ddaeth hi'n amser i symud i'r ysgol uwchradd, dychwelodd y pryderon a'r gofidiau yr oeddwn wedi eu teimlo pan oedd fy mab yn dechrau yn yr ysgol. Er ei fod wedi arfer bod mewn dosbarth o 30, byddai symud i'r ysgol uwchradd yn newid mawr iddo ac roeddwn i'n poeni sut y byddai'n ymdopi mewn dosbarthiadau prif ffrwd heb unrhyw gefnogaeth ychwanegol. Dywedwyd wrthyf ar y dechrau na fyddai dosbarth llai ar gael, gan nad oedd galw amdano, ac rwy'n cofio teimlo'n ofnus drosto ond roeddwn yn ceisio hefyd bod yn bositif am yr hyn oedd i ddod. Yn y pen draw, dywedwyd y byddai dosbarth llai ar gael wedi'r cyfan, gyda chyfleoedd i gymdeithasu â phlant eraill. Ni fyddai'r dosbarth wedi'i ynysu felly. Rwy'n cofio teimlo

rhyddhad a theimlo’n obeithiol, a heblaw am y problemau cychwynnol pan gafodd ei fwlio yn ystod y misoedd cyntaf, y galwadau ffôn cyson i'r ysgol i rannu fy mhryderon, a neb yn dychwelyd fy ngalwadau ffôn, a olygodd fy mod wedi siarad â Phennaeth y Flwyddyn pan welais i hi y tu allan i'r ysgol - cafodd hyn ei ddatrys maes o law, ac roedd wedi setlo am y 3 blynedd canlynol nes iddi ddod yn amser iddo ddewis ei bynciau TGAU. Roedd ei opsiynau’n brin, heb fawr o gyfleoedd "ymarferol" i blentyn nad oedd yn dda am ysgrifennu nac am gwblhau profion/arholiadau, oedd yn gwneud iddo deimlo’n bryderus iawn. Llwyddodd i ddewis 2 bwnc yr oedd ganddo ddiddordeb ynddynt a rhywbeth y gallai weld ei hun yn ei wneud yn y dyfodol - coginio, ond llenwi bwlch yn unig wnaeth y trydydd opsiwn. Roedd profion ac arholiadau yn parhau i achosi pryder iddo, ac er i mi ofyn am gymorth ychwanegol iddo yn gyson, yr unig beth a gynigiwyd iddo oedd 15 munud ychwanegol i gwblhau papur. Mae'n ei chael hi'n anodd ysgrifennu’r hyn sydd "yn ei ben" ar bapur - byddai wedi cael rhywun i ddarllen y cwestiwn iddo i wneud yn siŵr ei fod yn deall, a rhywun i ysgrifennu ar ei ran wedi gwneud gwahaniaeth enfawr iddo. Wrth edrych yn ôl, er bod cyfyngiadau’r cyfnod clo wedi bod yn anodd i bawb, yn gyffredinol, roedd yn golygu nad oedd yn rhaid iddo sefyll ei arholiadau TGAU. Nid oedd yr ysgol yn disgwyl y byddai ei raddau’n caniatáu iddo fynd i'r coleg, ond cafodd ei dderbyn ar y cwrs yr oedd wedi gwneud cais amdano ac fe wnaeth ffynnu ar y cwrs hwnnw.

Rwy'n siarad â nifer o rieni sydd mewn amgylchiadau tebyg, fel rhan o'm swydd bresennol, ac mae trosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn cael ei nodi fel cyfnod arbennig o anodd. Maen nhw'n dweud wrthyf nad yw anghenion eu plant yn ddigon difrifol i fynychu ysgol arbenigol, ond bod ysgol uwchradd yn opsiwn sydd yn codi braw arnyn nhw. Mae yna blant a fyddai'n cael trafferth mewn ysgol fawr. Bydden nhw'n ei chael hi'n anodd symud o un dosbarth i'r llall, pe bai llawer o blant eraill o gwmpas ac ati ond y dewis arall yw bod mewn ystafell ar wahan, wedi'u hynysu oddi wrth eu ffrindiau. Does dim dewis rhwng y ddau. Mae hyn yn gwneud iddyn nhw deimlo nad oes ganddyn nhw unrhyw ddewis heblaw addysgu eu plant gartref.

Yn ôl cyfrifiad a wnaed yn Hydref 2023, amcangyfrifwyd bod 92,000 o blant yn derbyn addysg ddewisol gartref. Mae hyn yn gynnydd, o'i gymharu â thua 80,900 yn nhymor yr Hydref y flwyddyn flaenorol. Mae rhai o'r rhesymau am hyn yn cynnwys anfodlonrwydd â'r ysgol neu eu hanghenion addysgol penodol (Efallai nad yw plant ag anghenion addysgol arbennig (AAA) bob amser yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol mewn ysgolion, sydd yn ysgogi rhieni i'w haddysgu gartref). (https://explore-education-statistics.service.gov.uk/find-statistics/elective-home-education).

Mewn adroddiad gan y Senedd a oedd yn edrych ar sut roedd plant Cymru yn cael eu hamddifadu o'u haddysg, mae'n nodi bod "pwyllgor Senedd yn dweud bod plant a phobl ifanc ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu gadael i lawr gan y rhai sydd yn gwneud penderfyniadau ar yr adeg bwysicaf yn eu bywydau". Mae'n mynd ymlaen i ddweud "ni ddylwn ni adael ein pobl ifanc i lawr o hyn ymlaen. Dim ond un cyfle sydd gennym i gael addysg, a dylai hynny fod y cyfle gorau posibl".

Mae'n sôn am rieni yn dweud eu bod yn gorfod ymladd am gefnogaeth ar gyfer eu plant gan gynnwys o fewn addysg, a gall gwrthod yr addysg sydd ei hangen arnynt gael effaith sylweddol ar eu lles a'u hiechyd corfforol a all yn ei dro effeithio ar eu cyfleoedd yn y dyfodol. Soniwyd hefyd am ddiffyg gofal plant addas yn ystod gwyliau'r ysgol. https://senedd.wales/senedd-now/news/welsh-children-being-denied--their-education/

Dyma fy nghais felly, rwy'n gwerthfawrogi bod pethau wedi gwella ers i fy mrodyr fod yn yr ysgol pan nad oedd unrhyw gyfleoedd i gael cymhwyster o unrhyw fath; profiad fy mab, a'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd, rwy'n teimlo bod angen gwneud mwy.

Fodd bynnag, mae mwy o waith y gellir ei wneud. Mae angen i ni wybod beth yw dymuniadau a theimladau'r plentyn yn ogystal â'r rhieni (nhw yw'r rhai sy'n adnabod eu plentyn orau), edrych ar y diffyg hyblygrwydd sydd yn bodoli ar hyn o bryd – yn hytrach na'r sefyllfa bresennol lle mae plant yn cael eu rhoi mewn ystafell ac yn cael eu hynysu oddi wrth eu cyfoedion; a phan fyddan nhw'n dewis eu pynciau i baratoi ar gyfer Blwyddyn 9 a 10, sicrhau y bydd y penderfyniadau a wneir o fudd iddyn nhw yn y dyfodol (mwy o opsiynau ar gyfer profiadau "ymarferol", sgiliau byw'n annibynnol, paratoi ar gyfer bod yn oedolyn). Mae angen i'r system sicrhau mai'r plentyn yw'r canolbwynt. Mewn byd delfrydol, byddai ysgol i'r plant hynny nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Ysgol Arbenigol ond sydd yn cael anawsterau yn y brif ffrwd. Byddai'n lleihau nifer y plant sy'n cael eu haddysgu gartref ac yn gwella eu gallu a'u profiadau yn y dyfodol.

Mae'r amser y mae ein plant yn ei dreulio yn yr ysgol yn gyfnod pwysig yn eu bywydau, a bydd eu profiadau'n cael effaith ar weddill eu bywydau. Os bydd pethau'n parhau fel y maen nhw, heb unrhyw newidiadau, bydd hynny nid yn unig yn effeithio ar ddyfodol ein plant ond hefyd, i rai, yn effeithio ar eu hiechyd meddwl. Gall cael anhawster dysgu fod yn anodd i'r plentyn, maen nhw'n aml yn teimlo eu bod nhw'n wahanol i'w cyfoedion, maen nhw'n agored i niwed ac i gael eu harwain i gyflawni troseddau gan eu bod nhw eisiau ffitio i mewn. Mae hefyd yn anodd i'w teuluoedd gan mai nhw yw'r rhai sy'n gweld yr effaith y mae hyn yn ei gael ar eu plentyn, maen nhw'n brwydro'n barhaus i sicrhau bod eu plentyn yn cael yr hyn y mae'n haeddu, y dechrau gorau ar gyfer gweddill eu bywydau.